**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

Julie James AS
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni

16 Medi 2025

Annwyl gyfeillion

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

I'n cynorthwyo â'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27, byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu rhagor o fanylion am wariant arfaethedig Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chyfiawnder a hygyrchedd cyfraith Cymru.

Rydym yn bwriadu craffu ar y cynigion hyn drwy ohebiaeth. Felly, byddem yn ddiolchgar pe baech yn anfon rhagor o fanylion am y meysydd a nodir yn yr atodiad erbyn 13 Tachwedd 2025.

Yn gywir,

Mike Hedges
Cadeirydd

Atodiad

## Cyffredinol

**1.** Dadansoddiad o wariant arfaethedig ar gamau gweithredu sy'n ymwneud â chyfiawnder o fewn cyllideb ddrafft 2026-27 a chyllidebau dangosol y dyfodol, yn ôl Maes Rhaglen Wariant, Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb – refeniw a chyfalaf, gan gymharu'r rhain, pan fo'n berthnasol, â'r gwariant arfaethedig cyfatebol yn 2025-26.

**2.** Disgrifiad naratif manwl o unrhyw wariant arfaethedig ar gyfiawnder yng nghyllideb ddrafft 2026-27 a, lle bo'n berthnasol, unrhyw newidiadau a nodwyd o un flwyddyn i'r llall.

**3.** Crynodeb o unrhyw waith a wnaed i wella lefel y wybodaeth a ddarperir am y gwariant arfaethedig ar gyfiawnder o fewn y gyllideb ddrafft, gan gynnwys manylion unrhyw newidiadau a wnaed i strwythur y gyllideb a'r modd y caiff ei chyflwyno o'i chymharu â blynyddoedd blaenorol o ganlyniad i hyn.

## Sicrhau Cyfiawnder i Gymru

**4.** Trosolwg o'r gwariant arfaethedig yn 2026-27 ar raglen waith Sicrhau Cyfiawnder i Gymru, gan gynnwys:

- y canlyniadau y mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio eu sicrhau o ganlyniad i'r gwariant hwn;
- esboniad o'r meysydd gwaith a fydd yn cael blaenoriaeth yn 2026-27; a
- lle bo'n berthnasol, gwybodaeth am y modd y mae'r gwariant arfaethedig hwn yn cymharu â gwariant ar raglen waith Sicrhau Cyfiawnder i Gymru yn y flwyddyn ariannol gyfredol, sef 2025-26.

**5.** Manylion y gwariant arfaethedig ar raglenni cyfiawnder mewn partneriaeth â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn 2026-27.

**6.** Trosolwg o unrhyw wariant arfaethedig i baratoi ar gyfer uchelgais Llywodraeth Cymru o ran datganoli elfennau o'r system gyfiawnder i Gymru.

**7.** Trosolwg o unrhyw adnoddau yng nghyllideb ddrafft 2026-27 i fwrw ymlaen â chynigion ar gyfer system tribiwnlysoedd ar gyfer Cymru.

## Tribiwnlysoedd Cymru

**8.** Trosolwg o'r adnoddau yng nghyllideb ddrafft 2026-27 ar gyfer cefnogi'r broses o weithredu Tribiwnlysoedd Cymru, gan gynnwys:

- camau sy'n cael eu cymryd i fonitro i ba raddau y bydd yr adnoddau a ddarperir yn ddigonol i ddiwallu'r gofynion gweithredol;
- manylion am wariant cyfalaf ar foderneiddio'r systemau TG.

## Hygyrchedd cyfraith Cymru

**9.** Dadansoddiad o unrhyw wariant arfaethedig o fewn cyllideb ddrafft 2026-27 sy'n ymwneud â rhoi rhaglen Llywodraeth Cymru i wella hygyrchedd cyfraith Cymru ar waith.